

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 14 Tachwedd 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Einir Wyn Coates	
Casi Roberts	Mei Gwilym	
Sarah Riley	Nerys John	
Peter Simpson		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	<p>Agorwyd y cyfarfod misol gan yr Is-gadeirydd Iestyn Harris. Ymddiheuriadau: Daniel Williams, Aled Emyr, Gruff John, Eifion Williams a Mair Bebb Jones. Diolchodd yr Is-gadeirydd i bawb oedd wedi helpu mewn unrhyw ffordd ar gyfer gwasanaeth ger y Gofeb ar Sul y Cofio.</p>	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD	
	<p>Ymddiheurodd y Cadeirydd Sir am ei absenoldeb yn y cyfarfodydd diweddar ond roedd hyn oherwydd bod cyfarfodydd wedi bod yn gwrthdaro. Diolchodd ynteu hefyd dros y pentref am y gwasanaeth Sul y Cofio. Rhoddodd wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â llwybr yr arfordir. Mae trafferthion yn parhau gyda Cae'r Ysgol. Mae'r ysgol yn ceisio arwain trafodaeth fedr ddod i gytundeb gyda'r datblygwr. Adroddodd y Cynghorydd ei fod wedi derbyn gwybodaeth bod y pentref yn anodd I bobl anabl gyda cherbydau; bydd y cynghorydd am geisio cael mwy o wybodaethpa ardaloedd o'r pentref sydd yn creu anhawsterau. Adroddodd hefyd bod gofid am folardiau byr ar Lan y Môr gyda peryg i'r cyhoedd syrthio drostynt. Bydd ef a Siân Gwenllïan yn cynnal syrjeri yn Neuadd yr Eglwys Fore Sadwrn. Buodd y Cynghorydd yn trafod cerdded i'r ysgol gyda staff a disgyblion yr ysgol.</p>	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD BLAENOROL	
4.1	Derbyniwyd gwariant mis Hydref a derbyniwyd adroddiad am y mis..	
4.2	<p>Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn gohebiaeth yn cadarnhau ymddeoliad John Roberts yr archwiliwr mewnol a bod Cyngor Gwynedd yn cynnig gwneud y gwaith. Cynigwyd bod y Cyngor Cymuned yn cyflogi Cyngor Gwynedd i weithredu fel Archwilwyr mewnol, eiliwyd y cynnig a chymeradwyodd y Cyngor hwn. Y Swyddog Ariannol i anfon llythyr penodi ynghyd a chyfarwyddiadau i Gyngor</p>	SWYDDOG ARIANNOL

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Gwynedd.	
4.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi dod i law a bod angen anfon sylwadau erbyn diwedd mis Tachwedd. Penderfynwyd rhoddi'r adroddiad ar gyfer trafodaeth ar agenda cyfarfod mis nesaf.	CLERC
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Derbyniwyd cofnodion 10 Hydref 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
6.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD	
6.1	Rhoddwyd adroddiad llafar ar y Neuadd gan y Cynghorydd Iestyn Harris. Bydd angen i'r is-bwyllgor cadarnhau bod yr anfonenau gyda'r amcan brisiau gwreiddiol yn cyfateb. Y Clerc i sganio yr anfonebau a'u hanfon a't yr isbwyllgor. Cafwyd anfoneb can Snowdonia Fire Protection sydd wedi adolygu y system larwm. Mae angen rhagor o arian i ymgymeryd a'r gaith hyn. Y Clerc i anfon y gwybodaeth ymlaen at is-bwyllgor y Neuadd gyda'r opsiwn i ofyn I'r gwasanaeth tân am eu cyngor.	
6.2	Mae rhan fwyaf o'r allweddi ar gyfer defnyddwyr cyson y Neuadd wedi eu dosbarthu.	IH
6.3	Rhoddwyd eglurhad bod is bwyllgor cyflogaeth wedi trafod cyflogau ac wedi penderfynu cael gwerthuso cyflogau drwy Gwilym Rippon drwy'r SLCC wedi cael cyngor oddi wrth Catherine Clerc Cyngor Tref Gaernarfon. Roedd y Cyngor yn gytûn i hyn ddigwydd ac i symud ymlaen. Nid oedd popeth wedi ei setlo gyda chyflogaeth Gofalwraig y Neuadd penderfynwyd cynnal cyfarfod gyda hi.	IH/SR
6.4	Trafodwyd bod angen offer i'r Neuadd. Roedd y Cynghorwyr Sara Riley a Casi Roberts wedi gwneud rhestr o bobpeth sydd ar gael yn y neuadd. Penderfynwyd bod £2000 ar gael i'r perwyl hyn a bod Cynghorwyr Casi Roberts a Sarah Riley yn gweithredu. Trafodwyd y fenter o Ginio Nadolig i'r Henoed. Dywedwyd bod £100 a'r hyn o bryd wedi ei glustnodi ond bod angen prisio beth sydd ei angen. Gan fod Mair Bebb Jones wedi bod yn cysylltu â Ms Dilys Myfanwy, penderfynwyd mai gwell fyddai hysbysu Mair o'r wybodaeth ddiweddaraf ag iddi gysylltu. Mae llinellau badminton wedi eu gosod a mae aelodau o'r is-bwyllgor wedi bod yn clirio yn	CR/SR CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	ystafell storio a didoli offer y Clwb Adar.	
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Cafwyd gwybodaeth bod arian y War Memorial wedi ei anfon ond heb gyrraedd y cyfrif. Cafwyd gwybodaeth bod eiddew wedi tyfu o dir Neuadd yr Eglwys i'r palmant a bod y gwaith o'i dynnu wedi ei gwblhau bore Sadwrn pan oedd gwaith clirio a glanhau'r gofeb wedi ei wneud ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio.	
8.0	CEISIADAU CYLLUNIO	
8.1	C16/0507/20/LL - Codi estyniad deulawr i'r swyddfa bresennol er mwyn darparu toiledau, cawodydd a mwy o le swyddfa ynghyd a chodi 3 uned manwerthu (A1) ac ehangu'r maes parcio presennol - Swyddfeydd Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JN - ER GWYBODAETH YN UNIG	
8.2	C17/1020/20/LL - Dymchwel yr estyniad deulawr presennol a chodi estyniad deulawr newydd yn ei le - 13 Bush Road, Y Felinheli - LL56 4UJ - DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.3	C17/1061/20/LL - codi tŷ newydd - Tir yn Pen y Bryn, Y Felinheli, LL56 4UZ - GWRTHWYNEBU Mae'r Cyngor o unfarn byddai adeiladu yma yn cael effaith andwyol ar lif dwr o fewn yr ardal, yn cynyddu llif traffig o'r ffordd breifat i'r fewn i ffordd sirol. Nid yw'r dyluniad y datblygiad yn gweddu i gymeriad yr ardal. Credir bod yr ardal yn cael ei orr ddatblygu. Mae llwybrau cyhoeddus rhif 1 a 4 yn cael ei effeithio.	CLERC
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
9.1	Dywedwyd bod toriad olaf y gwair wedi ei gwblhau.	
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Cadarnhawyd bod arwydd y maes parcio wedi ei godi.	
10.2	Gobeithir cael prisiau ar gyfer gwaith marcio'r maes parcio erbyn cyfarfod mis nesaf. Dywedwyd bod y broblem o ddefnyddio'r maes parcio fel gweithdy wedi ei ddatrys.	PS/EW
10.3	Mae dros 100 o fylbiau blodau gwanwyn wedi eu plannu ar safle Moriah.	
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
11.1	Nid yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb i gais i gael cyfarfod safle ynghylch trafferthion Allt Gam. Mae y gwaith adeiladu ddim wedi ei gwblhau a mae hyn yn gael adwaith negyddol ar y llwybr. Clerc i yrru at Swyddog y Cyngor eto.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

11.2	Mae adolygiad y llwybrau wedi ei gwblhau a rhoddyd copi papur ohono i'r Clerc. Y Clerc i anfon yr adroddiad at Gyngor Gwynedd a chael ymateb i ar gyfer pob llwybr. Y Clerc hefyd i anfon gwahoddiad i Swyddog Llwybrau'r Cyngor i fynychu cyfarfod mis Ionawr y Cyngor. Copi hefyd i'w anfon at Gyngor Cymuned Llanddeiniolen oherwydd bod y llwybrau sydd yn y ddau gymuned angen sylw bellach sef llwybrau rhofau 9, 12, 14 a 15.	CLERC
12.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
12.1	Diolch i'r Clerc ag Eifion am eu gwaith a'r Gorchymuyn Trafnidiaeth ar gyfer Sul y Cofio.	CLERC
12.2	Y Cynghorydd Sarah Riley am rannu'r daflen creu timau casglu sbwriel ddsbarthwyr mewn amryw o ardaloedd o fewn y pentref	SR
12.3	Mae arwyddion ar gyfer y Cae Chwarae yn barod i'w rhoi i fyny wirth ymyl y "roundabout" newydd.	
13.0	PROSIECTAU	
	Dim	
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Dim	
	Dim i'w adrodd	
15.0	GWEFAN	
15.1	Dangosodd y Cynghorydd Casi Roberts y wefan ar ei dyluniad newydd. Gobeithir lansio'r wefan ar ei gwedd newydd yn fuan.	
16.0	MATERION AMRYWIOL	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:41	
Llofnod:		Dyddiad: